"Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed."
(Mathew 5:13)

Dyma un o ddywediadau mwyaf enwog yr Arglwydd Iesu. Mae'r term 'halen y ddaear' wedi glynu fel teitl ar berson cymwynasgar iawn. Beth oedd Iesu yn ei feddwl wrth ddefnyddio'r disgrifiad hwn o'i bobl, a beth yw ystyr colli blas?

Gwerth halen

Yn yr Hen Fyd roedd halen yn werthfawr iawn. Roedd y Groegiaid yn tybio ei fod yn ddwyfol hyd yn oed. Roedd y Rhufeiniaid hefyd yn credu nad oedd dim yn fwy gwerthfawr na haul a halen. Roedd tair rhinwedd arbennig yn perthyn i halen ym meddyliau pobl cyfnod y Testament Newydd:

Purdeb

Efallai bod ei wynder yn help i bobl ei gysylltu â phurdeb. Ym marn y Rhufeiniaid, roedd yn bur am ei fod yn deillio o ddau beth pur, sef yr haul a'r môr. Roedd yn cyd-fynd â'r offrymau eraill i Dduw ar hyd y dydd yn yr Hen Destament. Felly, mae'r Arglwydd yn disgwyl i fywyd y Cristion fod yn bur, oddi mewn ac oddi allan. Rhaid bod yn bur o galon, yn ogystal â phur o wefus ac ymddygiad.

Atal llygredd

Roedd halen hefyd, fel heddiw, yn cael ei ddefnyddio i gadw bwyd rhag pydru a llygru a difetha. Dwi wedi clywed droeon hanesion gan y teulu am ddiwrnod lladd mochyn. Ar ôl ei ladd byddai'n cael ei ddarnio ac yna ei halltu. Roedd hyn yn golygu rhwbio blociau mawr o halen ar y cig er mwyn iddo bara'n hir, gan nad oedd oergell ar gael bryd hynny. Felly, dylai presenoldeb Cristion fod yn atalfa rhag pechod. Dylai ansawdd y sgwrs newid, a safon y straeon digri, a dylai hyd yn oed bwriadau drwg gael eu hatal.

Rhoi blas

"A fwyteir yr hyn sy'n ddi-flas heb halen? (Job 6:6). Y cwestiwn yw, pwy sy'n cael blas ar fywyd y Cristion?

Gallem ddweud, yn gyntaf, fod bywyd y Cristion yn flasus yng ngolwg Duw. Yng nghanol byw gwrthryfelgar, annuwiol mae bywyd Cristion sydd yn ei garu ac yn ei wasanaethu yn hynod o flasus. Hyn sydd yn gwneud y ddaear yn dderbyniol i Dduw. Hyn sydd yn peri iddo drin y ddaear gyda gras ac amynedd

yn hytrach na digofaint a barn. Yn wir, cawn enghreifftiau yn y Beibl o Dduw yn dangos gras at grwpiau o bobl oherwydd eu bod yn cynnwys ei bobl:

1. Meddyliwch am Abraham.
Yn Genesis 18 mae Duw yn dweud wrtho ei fod yn mynd i ddinistrio Sodom mewn barn. Ond mae Abraham yn eiriol dros y ddinas, gan ofyn a fyddai Duw yn dinistrio'r ddinas os oedd rhai cyfiawn yno hefyd. Byddai deg person cyfiawn yn ddigon i arbed Sodom. Ni ddinistriodd Duw'r ddinas nes bod Lot wedi gadael.

2. Beth am hanes Paul?
Yn Actau 27 cawn ei hanes mewn storm enbyd a ddrylliodd y llong. Ond mae Paul yn cael neges gan angel fod raid iddo fynd i Rufain, ac felly ni fyddai farw. Ond hefyd **"dyma Dduw o'i ras wedi rhoi i ti fywydau pawb o'r rhai sy'n morio gyda thi"** (Actau 27:24).

Yn ail gallem ddweud bod y Cristion yn rhoi blas i'r ddaear, i'r byd anghrediniol. Dylai pobl fod yn gweld rhywbeth blasus ym mywyd y Cristion, oherwydd ei fod yn dwyn ffrwyth yr Ysbryd, trwy ddylanwad yr Ysbryd Glân arno, ynddo a thrwyddo.

Dylai ymadrodd y Cristion fod yn flasus i'r rhai sydd o'i gwmpas. Dylai fod yn onest, yn eirwir, yn adeiladol, yn tystio i ras Duw a'i Efengyl: **"Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasu â halen, ichwi fedru ateb pob un fel y dylid."** (Col. 4:5-6).

Colli blas, colli gwerth

Mae halen o'r môr-lynnoedd neu'r creigiau wrth ymyl y Môr Marw yn datblygu blas hen yn hawdd. Y rheswm am hyn yw bod yr halen yn gymysg â gypswm a mwynau eraill.

Roedd Iesu'n drwm ei gondemniad o arweinwyr crefyddol fel y Phariseaid a'r ysgrifenyddion oedd i fod yn halen, ond oedd yn dysgu ac yn byw crefydd ffurfiol, deddfol ac arwynebol.

Does dim posib adfer blas yr halen yma. Felly, mae'n amhosib i'r rhai sy'n cael eu hyfforddi yn y gwirionedd, ond sy'n ymgaledu yn erbyn anogaethau'r Ysbryd Glân, gael eu hadnewyddu i edifeirwch (Heb. 6:4-6).

Rhaid i halen fod yn halen. Rhaid i ni fod yn real gerbron Duw a dynion. Duw a'n gwaredo rhag bod yn halen diflas ac yn ddiwerth yn ei deyrnas Ef.